



CYNGOR SIR CEREDIGION

GWYBODAETH I RAI SY'N TALU'R DRETH GYNGOR 2026-2027

Ymholiadau post i:

Cyllid a Chaffael
Penmorfa, Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA

☎ 01970 633253


Ebost revenues@ceredigion.gov.uk

CRYNODEB Y GYLLIDEB 2026-2027

Ar 02/03/26, pennodd Cyngor Sir Ceredigion ei gyllideb ar gyfer 2026/27 ar £221.5m sydd wedi arwain at godiad 4.75% yn Nhreth y Cyngor. Mae'r codiad hwn yn cynrychioli codiad 4.65% ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor a 0.1% arall er mwyn ariannu codiad yn ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r codiad at ddibenion Cyngor y Sir (gan gynnwys yr ardoll dân) yn golygu bod eiddo Band D yng Ngheredigion yn talu £1,976.18 - codiad o £89.61 (mae hyn yn cyfateb i £7.47 ychwanegol y mis).



Mae'r cyllid ar gyfer gweithredu Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn disgyn ar bob Awdurdod Lleol cyfansoddol yn y rhanbarth, pob un yn gyfrifol am gyfran gymesur yn seiliedig ar boblogaeth. Y cyfraniad sydd ei angen gan Gyngor Sir Ceredigion (a elwir yn ardoll Tân) yw £5.935m ar gyfer 2026/27. Yn wahanol i gost Plismona sy'n Braesept ac a ddangosir ar wahân ar eich bil Treth y Cyngor, mae'r Ardoll Tân yn rhan o Gyllideb £221.5m y Cyngor. Mae mwy o wybodaeth am y Gwasanaeth Tân ar gael yn www.mawwfire.gov.uk/cym.



Cafwyd Setliad Ariannol Dros Dro Ceredigion gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27 ar 24/11/25 ac yn wreiddiol roedd yn godiad 2.3% mewn cyllid, gyda Cheredigion yn un o 10 Awdurdod Lleol yng Nghymru sy'n cael y codiad isaf ac yn cael eu cefnogi gan 'Gyllid Gwaelodol'. O ganlyniad i Gytundeb Cyllideb Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru a gyhoeddwyd ar 09/12/25, newidiodd sefyllfa ariannu'r Cyngor i godiad 4.1% mewn cyllid (gan fod yn dal i fod mewn grŵp o Awdurdodau Lleol yng Nghymru sy'n cael y codiad isaf). Cafwyd y Setliad Ariannol Terfynol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27 ar 20/01/26 ac arweiniodd o hyd at godiad 4.1% yn y cyllid ar gyfer 2026/27. Y cyllid ychwanegol yw'r prif ffactor sydd wedi galluogi'r codiad yn Nhreth y Cyngor ar gyfer elfen Cyngor Sir Ceredigion i gael ei ostwng o sefyllfa ddrafft gynnar o 8.9% i lawr i 4.75%.

Mae'r Cyngor hefyd yn casglu Treth y Cyngor ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys (codiad 7.47%) a'r Cyngorau Tref a Chymuned (codiad 13.92% ar gyfartaledd). At ei gilydd, mae bil cyfartalog Treth y Cyngor ar gyfer eiddo band D wedi codi 5.37% - codiad £123.36 (mae hyn yn cyfateb i £10.28 ychwanegol y mis).

Mae Llywodraeth Cymru yn pennu Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer Cyngorau bob blwyddyn. Asesiad o Wariant Safonol 2026/27 Cyngor Sir Ceredigion yw £213.6m.

Mae rhaglen o fuddsoddiad cyfalaf gwerth cyfanswm o £32m wedi'i chynllunio ar gyfer 2026/27 (£99m ar gyfer cyfnod y rhaglen gyfalaf aml-flwyddyn 2025/26 - 2028/29).





Mae Ceredigion yn parhau i wynebu pwysau ariannol, lle mae cynnal gwasanaethau'r Cyngor yn parhau i fod yn heriol. Amcangyfrifir bod cyfanswm y pwysau o ran costau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu ar gyfer 2026/27 yn £9.3m, sy'n cyfateb i ffactor chwyddiant penodol i Geredigion o 4.4%. Mae hyn yn cymharu â chwyddiant cyffredinol sy'n 3% (fffigur CPI Ionawr 2026).

Felly, mae angen dod o hyd i Ddiffyg

yn y Gyllideb o £5.1m o gyfuniad o Arbedion i'r Gyllideb o £2.2m ac ystyriaethau Treth y Cyngor.

Nid yw'r meysydd lle gwelir pwysau o ran costau yn unigryw i Geredigion. Maent yn amrywio o ddyfarniadau Cyflog (a bennwyd yn genedlaethol) i roi digon o gyllid i Ddarparwyr Gofal Cymdeithasol (e.e. Cartrefi Gofal Cartref a Chartrefi Gofal Preswyl i Bobl Hŷn) i sicrhau bod gweithwyr Gofal Cymdeithasol cofrestredig yng Ngheredigion yn parhau i gael o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol (sy'n codi o £12.60 i £13.45 yr awr – codiad 6.75%).

Mae Cynllun Tai Cymunedol y Cyngor yn parhau i fod ar gael i gefnogi trigolion yng Ngheredigion gyda llwybr i berchentyaeth (gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn [Cynllun Tai Cymunedol – Rhannu Ecwiti - Cyngor Sir Ceredigion](#)).

O fewn y Gyllideb, mae Cynghorwyr wedi blaenoriaethu buddsoddiad newydd mewn 4 maes allweddol:

- Buddsoddi mewn cyfleoedd newydd o ran swyddi drwy Gynllun Cyflogaeth Graddedigion y Cyngor.
- £600,000 ychwanegol o gyllid yn benodol ar gyfer Ysgolion.
- Dechrau neilltuo arian cyfatebol sydd ei angen ar gyfer cynlluniau cyfalaf sylweddol yn y dyfodol e.e. cynllun Diogelu'r Arfordir Aberystwyth, amryw o estyniadau a/neu adnewyddu ysgolion

cynradd a gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer Campws Llanbedr Pont Steffan gan gynnwys Fferm Llettytwppa.

- Cefnogi Pyllau Nofio sy'n cael eu rhedeg gan Ymddiriedolaeth Wirfoddol yn Aberaeron a Llandysul gyda chyllid ychwanegol.

TRETH Y CYNGOR

Beth mae elfen Cyngor y Sir Treth y Cyngor yn talu amdano?

Mae Treth y Cyngor yn dreth gyffredinol sy'n seiliedig ar werthoedd eiddo ac nid yw'n gweithredu ar sail talu wrth i chi ddefnyddio Gwasanaethau. Byd trigolion yn gweld ac yn defnyddio gwahanol wasanaethau'r Cyngor ar wahanol adegau yn eu bywydau:

- Yn ifanc, byddai hyn yn dechrau gyda chofrestru genedigaeth ac yn symud ymlaen i gynnwys cael eich cludo i addysg Feithrin, Ysgol Gynradd ac Ysgol Uwchradd a chael mynediad iddi hyd at addysg Ôl-16, boed hynny'n addysg Chweched Dosbarth neu hyfforddiant mwy galwedigaethol a chael mynediad at Wasanaethau Cerddoriaeth ac Ieuentid.
- Fel oedolyn gallai hyn gynnwys defnyddio canolfan chwaraeon, defnyddio Llyfrgell, cerdded llwybr Arfordir Ceredigion (a hawliau tramwy cyhoeddus eraill), cofrestru i bleidleisio mewn Etholiad, cyflwyno cais Cynllunio neu gais Rheoliadau Adeiladu, bwyta mewn sefydliadau bwyd diogel a rheoledig, mynd i Amgueddfa neu Theatr y Cyngor, cael eich Gwastraff wedi'i gasglu (ac yna ei waredu neu ei ailgylchu), defnyddio safle Gwastraff Cartrefi, gyrru ar Briffyrdd a Phontydd a gynhelir (gan gynnwys ffyrdd sy'n cael eu graeanu yn ystod misoedd y gaeaf), defnyddio gwasanaeth Bws cyhoeddus, cael goleuadau ar eich stryd a gallu galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer argyfyngau.
- Mewn blynyddoedd diweddarach, byddai trigolyn yn elwa o Docynnau Teithio Consesiynol ar drafnidiaeth gyhoeddus, ond yn y pen draw efallai y bydd angen iddo ddefnyddio gwasanaethau Gofal a Chymorth ar ryw adeg (gan ddefnyddio staff gwerthfawr Gofal Cymdeithasol sy'n

cael eu talu o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru).
Gallai hyn amrywio o gymorth ac offer i alluogi byw'n
annibynnol i Ofal yn y Cartref hyd at leoliad mewn Cartref
Gofal Preswyl ac yn y pen draw cyfranogiad posibl
Gwasanaeth y Crwner a chofrestru marwolaeth.

DADANSODDIAD CYLLIDEB

Beth mae pob Gwasanaeth yn ei gostio?


Mae'r Cyllidebau ar gyfer pob Gwasanaeth wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

Gwasanaethau	2026/27 Cyllidebau Rheoladwy Gwasanaethau £'000	Ychwanegu Dyraniadau Mewnol/ Talidau Cyfalaf £'000	Wedi tynnu Addaliadau Mewnol £'000	Cyllideb Net y Cyngor Sir 2026/27 (gan gynnwys Ardollau) £'000
Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol	7,340	1,338	(7,467)	1,211
Gwasanaethau Democrataidd	5,712	803	(4,086)	2,429
Economi ac Adfywio	4,284	3,836	(3,281)	4,839
Cyllid a Chaffael	22,935	1,695	(22,046)	2,584
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	21,256	8,132	(143)	29,245
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	1,859	289	(1,366)	782
Pobl a Threfniadaeth	2,791	390	(2,508)	673
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	2,714	738	(293)	3,159
Porth Cymorth Cynnar	5,102	5,575	-	10,677
Porth Cynnal	43,769	4,107	-	47,876
Porth Gofal	22,246	4,057	-	26,303
Ysgol a Dysgu Gydol Oes	65,239	11,049	-	76,288
Arweinyddiaeth	8,628	409	(1,228)	7,809
Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd Wrth Gefn	7,624	-	-	7,624
	221,499	42,418	(42,418)	221,499

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn Atodiad 3 o'r adroddiad ar y Gyllideb
a ystyriwyd gan y Cyngor Llawn ar 02/03/26 - [Cyngor Sir Ceredigion -
Agenda \(Eitem 5\)](#).

Beth mae pob Gwasanaeth yn ei gostio?

Mae'r Cyllidebau ar gyfer pob Gwasanaeth wedi'u crynhoi yn y tabl isod:
Gellir dangos cost reoladwy uniongyrchol Gwasanaethau'r Cyngor (ac eithrio unrhyw ailddyrannu Gwasanaethau Cymorth neu daliadau cyfalaf fel Dibrisiant) ar gyfer 2026/27 fel:



Bydd 75% o gyllideb y Cyngor yn cael ei wario ar Ysgolion a Dysgu Gydol Oes, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gydol Oes a Phriffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol. Ar ôl darparu ar gyfer costau sefydlog eraill (i raddau helaeth) (h.y. Lwfansau Aelodau, Ardoll yr Awdurdod Tân, Costau Ariannu Cyfalaf a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor), dim ond 14% (£31m) sydd ar ôl ar gyfer holl Wasanaethau eraill y Cyngor.

Addasiadau a wnaed ar gyfer:

* Yn cynnwys Lleoliadau Y Tu Allan i'r Sir (gan y Grŵp Arweiniol), Ffioedd Cyfreithiol (gan Gyfreithiol a Llywodraethu) a Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (gan Bobl a Threfniadaeth)

** Yn cynnwys PFI Penweddig (gan Gyllid a Chaffael)

Mae'r Cyngor yn disgwyl gwario ar y gwasanaethau yma yn 2026-2027

Gwasanaethau	CYLLIDEB 2026-2027			
	Gwariant Gros £000's	Incwm £000's	Grantiau £000's	Gwariant Net £000's
Cyswilt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol	1,356	225	0	1,131
Gwasanaethau Democraidaidd	2,455	1	0	2,454
Economi ac Adfwyio	9,383	3,148	1,151	5,084
Cyllid a Chaffael	15,435	602	11,544	3,289
Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	37,566	6,073	2,248	29,245
Gwasanaethau Cyfreithiol a Lywodraethu	929	147	0	782
Pobl a Threfniadaeth	1,038	103	262	673
Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd	3,463	274	30	3,159
Porth Cymorth Cynnar	21,789	2,057	9,052	10,680
Porth Cynnal	63,858	14,324	1,530	48,004
Porth Gofal	34,486	8,114	0	26,372
Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	97,298	4,928	16,022	76,348
Arweiniol	7,927	0	0	7,927
Cost Gwasanaethau'r Cyngor Sir	296,983	39,996	41,839	215,148
Cyfraniadau o'r Cronfeydd Wrth Gefn	(4,020)			(4,020)
Darpariaeth wrth Gefn	1,222			1,222
Gwariant Cyfalaf a godir ar y Cronfa Gyffredinol	3,059		38	3,021
Ardollau a Phraeseptau Tref a Chymuned:				
Awdurdod Tân ac Achrub Canolbarth a Gorllewin Cymru	5,935			5,935
Cyfoeth Naturiol Cymru - Cors y Borth	13			13
Praeseptau Cyngorau Tref a Chymuned	1,919			1,919
Gofyniad Cyllideb (gan gynnwys Praeseptau Cyngorau Tref a Chymuned)	305,111	39,996	41,877	223,238
Ychwanegu: Gostyngiad Trethi Annomestig	180			180
Wedi tynnu: Praeseptau Cyngorau Tref a Chymuned	1,919			1,919
Cyllideb Net y Cyngor Sir gan gynnwys Ardollau	303,372			221,499
Ariennir gan:				
Grantiau Penodol	41,877			
Incwm Arall	39,996			
Grant Cynnal Refeniw	153,336			153,336
I'w Gwrdd Gan: Talwyr Treth y Cyngor	68,163			68,163

Mae CRONFYEYDD WRTH GEFN yn angenrheidiol i gwrdd ag ymrwymiadau hysbys yn y dyfodol a hefyd i ariannu gwariant cyn cael incwm. Mae cronfeydd wrth gefn hefyd yn ddymuniol i wrdd â gwariant annisgwyl neu ddifffig incwm. Mae balansau amcangyfrifedig cronfeydd wrth gefn y Cyngor fel a ganlyn:

	Balans a Amcangyfrifir		Balans a Amcangyfrifir
	31.03.2026		31.03.2027
	£000's		£000's
Cronfeydd wrth gefn wedi'u Clustnodi	34,797		30,777
Cronfa Gyffredinol	7,014		7,014
Cyfanswm	41,811		37,791

Mae Treth y Cyngor syllaenol yn daladwy mewn perthynas ag anheddau Band 'D', tra bod ffracsion o'r swm hwn yn daladwy ar gyfer anheddau mewn bandiau eraill. Dangosir Treth gros y Cyngor sy'n daladwy at ddibenion y Cyngor Sir a Heddlu Dyfed-Powys gyferbynn:-

Band	Gwerth Annedd o	Gwerth Annedd hyd at	Rhan o'r Dreth Sylfaenol	Cyngor Ceredigion	Heddlu Dyfed-Powys
	£	£		£ c	£ c
A	-	44,000	6ed/9	1,317.45	258.42
B	44,001	65,000	7fed/9	1,537.03	301.49
C	65,001	91,000	8fed/9	1,756.60	344.56
D	91,001	123,000	9fed/9	1,976.18	387.63
E	123,001	162,000	11eg/9	2,415.33	473.77
F	162,001	223,000	13eg/9	2,854.48	559.91
G	223,001	324,000	15fed/9	3,293.63	646.05
H	324,001	424,000	18fed/9	3,952.36	775.26
I	424,001	-	21ain/9	4,611.09	904.47



Mae eitemau arbennig ychwanegol yn ddyledus i archebiannau Cynghorau Tref/Cymuned fel a gwelir ar y rhestr isod:

EITEMAU ARBENNIG TRETH Y CYNGOR 2026-2027				
Tref neu Gymuned	Archebiant 2025-2026		Archebiant 2026-2027	
	£	c	£	c
Aberystwyth	656,940.00		739,645.00	174.97
Aberaeron	50,708.00		55,083.00	65.57
Aberteifi	99,024.20		108,926.62	56.03
Llanbedr Pont Steffan	60,000.00		70,000.00	68.70
Cei Newydd	43,999.00		65,998.50	68.01
Borth	38,324.70		59,132.74	69.17
Ceulanamaesmawr	17,000.00		20,000.00	45.43
Blaenrheidol	4,284.00		4,988.00	23.09
Genau'r Glyn	10,500.00		10,750.00	30.51
Llanbadarn Fawr	60,000.00		60,000.00	67.00
Llangynfelin	8,250.00		9,075.00	32.42
Llanfarian	25,000.00		25,000.00	32.05
Llangwryfon	4,500.00		4,725.00	18.36
Llanilar	7,500.00		9,000.00	18.84
Llanrhystud	11,600.00		12,180.00	26.46
Melindwr	7,500.00		7,500.00	13.70
Pontarfynach	3,500.00		3,500.00	12.82
Tirymynach	30,000.00		33,000.00	39.43
Trawsgoed	5,600.00		5,600.00	12.30
Trefeurig	20,000.00		18,000.00	21.55
Faenor	33,782.00		34,327.00	41.42
Ysgubor-y-Coed	3,850.00		4,235.00	21.37
Llanddewi Brefi	18,000.00		18,000.00	57.97
Llangeitho	5,500.00		5,500.00	14.55
Lledrod	2,808.30		2,809.00	8.87
Nantcwnlle	2,500.00		2,500.00	6.47
Tregaron	30,000.00		40,000.00	71.77
Ysbyty Ystwyth	2,500.00		2,500.00	11.45
Ystrad Fflur	8,710.00		13,332.00	41.30
Ystrad Meurig	2,476.50		3,426.80	20.00
Ciliau Aeron	6,000.00		6,000.00	13.79
Henfynyw	7,000.00		7,000.00	13.06
Llanarth	12,539.23		12,539.23	16.46
Llandysiliogogo	15,401.88		15,401.88	25.47
Llainfair Clydogau	7,000.00		9,000.00	29.59
Llanfihangel Ystrad	9,950.00		9,950.00	14.37
Llangybi	5,290.00		6,084.00	21.88
Llanllwchaearn	11,913.80		12,213.95	23.79
Llansantffraed	30,000.00		31,500.00	49.76
Llanwenog	13,000.00		13,000.00	21.08
Llanwnnen	3,747.40		5,200.00	23.49
Dyffryn Arth	14,550.00		15,870.00	26.13
Aberporth	57,873.00		74,873.00	60.52
Beulah	35,000.00		55,000.00	59.99
Llandyfriog	25,000.00		25,000.00	28.65
Llandysul	54,003.85		61,965.52	47.97
Llangoedmor	35,000.00		43,500.00	69.60
Llangrannog	11,550.00		11,550.00	23.81
Penbryn	15,000.00		15,000.00	18.40
Troedyraur	10,000.00		10,000.00	14.32
Y Ferwig	27,060.00		29,750.00	42.81
Cyfanswm	1,681,235.86		1,919,131.24	



CRYNODEB O'R DOSBARTHIADAU

- A. Annedd heb ei dodrefnu:-
- a) sydd angen neu sy'n cael, neu wedi cael, gwaith atgyweirio mawr i'w gwneud yn addas i fyw ynddi, neu
 - b) sy'n cael ei newid neu wedi cael ei newid yn strwythurol.
- Bydd yr esemptiad yn berthnasol i'r byrraf o'r canlynol:-
- Cyfnod o 12 mis
 - Cyfnod sy'n dechrau'r diwrnod y daeth yr annedd yn ddi-ddodrefn ac yn dod i ben 6 mis ar ôl i'r gwaith atgyweirio mawr neu'r newid strwythurol gael ei gwblhau'n sylweddol.
 - O 01af Ebrill 2026 ymlaen, mae cyfnod esemptio 12 mis arall yn berthnasol ar newid perchnogaeth, gyda gwerthiant yr eiddo wedi'i ddangos trwy ddogfennau trosglwyddo cyfreithiol neu gofrestru gyda Chofrestrfa Tir EF.
- B. Annedd sy'n eiddo i Elusen sydd heb ei meddiannu am lai na 6 mis.
- C. Annedd sy'n wag ac yn sylweddol heb ddodrefn ac wedi bod felly am gyfnod o lai na 6 mis, neu annedd sydd wrthi'n cael ei chodi neu y mae'r gwaith o'i chodi wedi'i gwblhau i raddau helaeth ond sydd wedi aros yn wag ac heb ddodrefn am gyfnod o lai na 6 mis ers ei chwblhau.
- O 01 Ebrill 2026 mae cyfnod esemptio 6 mis arall yn berthnasol ar newid perchnogaeth, gyda gwerthiant yr eiddo wedi'i ddangos trwy ddogfennau trosglwyddo cyfreithiol neu gofrestru gyda Chofrestrfa Tir EF.
- D. Annedd sydd heb ei meddiannu oherwydd bod y person atebol wedi'i gadw yn y carchar.
- E. Annedd sydd heb ei meddiannu oherwydd bod y person atebol yn glaf hirdymor mewn ysbyty neu gartref gofal.
- F. Annedd sydd heb ei meddiannu lle mae'r parti atebol yn gynrychiolydd personol y cyn-feddiannydd ymadawedig. Mae'r esemptiad wedi'i gyfyngu am gyfnod o hyd at ddwy flynedd o ddyddiad y farwolaeth, neu nes bod profiant neu lythyrau gweinyddu wedi'u rhoi, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Unwaith y bydd profiant neu lythyrau gweinyddu wedi'u rhoi, gall yr esemptiad barhau am 12 mis arall, neu nes bod yr eiddo wedi'i feddiannu neu ei werthu, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.
- G. Annedd sydd wedi'i gwahardd rhag ei meddiannu yn ôl y gyfraith.

- H. Annedd sydd heb ei meddiannu ac sydd ar gael i'w meddiannu gan weinidog crefydd.
- O 01af Ebrill 2026 mae'r esemptiad yn berthnasol am gyfnod parhaus o hyd at flwyddyn ers i'r eiddo gael ei adael yn wag.
- I. Annedd sydd heb ei meddiannu oherwydd bod y person atebol yn cael gofal yn rhywle arall.
- J. Annedd sydd heb ei meddiannu oherwydd bod y person atebol yn darparu gofal yn rhywle arall.
- K. Annedd sydd heb ei meddiannu oherwydd bod y person atebol yn fyfyrwr sy'n byw yn rhywle arall.
- L. Annedd sydd heb ei meddiannu oherwydd ei bod wedi'i hailfeddiannu gan y morgeisai.
- M. Neuadd Breswyl Myfyrwyr.
- N. Annedd sy'n cael ei meddiannu'n gyfan gwbl gan fyfyrwyr. Bydd yr esemptiad yn dal i fod yn berthnasol lle mae priod myfyrwr nad yw'n Brydeinig yn byw os yw'r person hwnnw wedi'i atal, gan delerau ei fisa mynediad i'r DU, rhag cymryd cyflogaeth neu hawlio budd-daliadau.
- O. Annedd sy'n eiddo i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn.
- P. Anheddau sy'n cael eu meddiannu gan aelodau o luoedd ar ymweliad (o fewn ystyr Rhan I o Ddeddf Lluoedd Ar Ymweliad 1952).
- Q. Annedd sydd heb ei meddiannu a lle mae'r person atebol yn ymddiriedolwr mewn methdaliad.
- R. Annedd sy'n cynnwys llain neu angorfa nad yw'n cael ei feddiannu gan garafán na chwch.
- S. Annedd sy'n cael ei meddiannu gan berson neu bersonau o dan 18 oed yn unig.
- T. Annedd wag sy'n rhan o un eiddo sy'n cynnwys annedd arall ac na ellir ei gosod ar wahân heb dorri rheolaeth gynllunio.
- U. Annedd sy'n cael ei meddiannu gan bobl ag amhariad gwybyddol sylweddol yn unig neu sydd wedi'i meddiannu gan bobl ag amhariad gwybyddol sylweddol ynghyd ag un neu ragor o fyfyrwyr.
- V. Annedd y mae'r person atebol mewn perthynas â hi yn Ddiplomydd neu'n gweithio i rai Sefydliadau Rhyngwladol.
- W. Anecs neu ran hunangynhwysol debyg o eiddo a feddiannir gan berthynas oedrannus neu anabl i'r preswylwyr sy'n byw yn rhan arall yr eiddo.
- X. Annedd gydag un neu ragor o bobl sy'n gadael gofal (24 oed neu'n iau), a pherson ifanc categori 3 fel y'i diffinnir gan adran 104 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a lle mae pob preswlydd nail ai'n berson sy'n gadael gofal, yn

fyfyrwr neu rywun ag anawsterau dysgu/anhwylder iechyd meddwl. Mae'r esemptiad mewn grym o 1af Ebrill 2019.

- Y. Annedd sy'n lloches a ddarperir gan awdurdod lleol neu a gomisiynir ganddo ac a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer llety dros dro a llety brys i bobl sydd wedi bod yn destun unrhyw fath o gamdriniaeth, cam-drin domestig, trais ar sail rhywedd neu drais rhywiol.

- Mae'r esemptiad hwn mewn grym o 1af Ebrill 2026.

GOSTYNGIAD I BOBL ANABL

Efallai y byddwch yn gymwys i gael gostyngiad yn eich Treth y Cyngor os oes person anabl yn preswyllo yn yr aelwyd ac os oes gan yr annedd nodweddion penodol sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion y person anabl. Gallai'r nodweddion arbennig fod ystafell arbennig, ystafell ymolchi neu gegin ychwanegol neu ddigon o le ar gyfer cadair olwyn y person anabl. Rhaid i'r nodweddion fod yn angenrheidiol ac yn bwysig iawn i les y person anabl.


GWASANAETHAU AR-LEIN

Budd-dal Tai / Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor

Gallwch wneud cais am Fudd-dal Tai (os ydych o oedran pensiwn neu'n byw mewn llety penodol) a/neu ostyngiad o dan Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar-lein. Mae'r ffurflen gais ar gael yn Gymraeg, Saesneg a fersiwn wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer cwsmeriaid ag amhariad ar eu golwg. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar-lein i lenwi'r ffurflen a rhwch unrhyw dystiolaeth y gofynnir amdani. Mae Cyfrifiannell Budd-daliadau hefyd ar gael lle gallwch nodi'ch manylion am ganllaw o faint y gallech fod â hawl iddo. Ewch i <https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/budd-daliadau>

Treth y Cyngor ac Ardrethi Annomestig

Mae deddfwriaeth newydd a ddaeth i rym o 1af Ebrill 2010 yn caniatáu anfon rhai biliau a hysbysiadau yn electronig. Bydd e-filio yn caniatáu i chi gael mynediad i'ch biliau a'ch hysbysiadau dros y we ac, ynghyd â Hunan-wasanaeth, mae gennych fynediad cyson i'ch cyfrif. I gofrestru ar gyfer e-filio, rhwch eich cyfeiriad e-bost i revenues@ceredigion.gov.uk. Mewngofnodwch i www.ceredigion.gov.uk i ddarganfod mwy.



GOSTYNGIADAU

Mae'r adran ganlynol yn rhoi arwydd o'r mathau o ostyngiadau a all fod yn berthnasol. Noder nad yw'r amodau cymhwyso llawn yn cael eu dangos.

Os ydych chi'n meddwl y gallai fod gennych hawl i ostyngiad, gwnewch gais i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Caffael a Chyllid yn y cyfeiriad a ddangosir neu fel arall drwy'r wefan www.ceredigion.gov.uk.

Os mai dim ond un oedolyn sy'n byw yn yr annedd, bydd gostyngiad o 25% yn berthnasol. Bydd rhai oedolion sy'n byw yn yr annedd yn cael eu 'diystyru' at ddibenion gostyngiad. Hynny yw, ni fyddant yn cael eu cyfrif fel aelodau o'r aelwyd at ddiben hawlio gostyngiad Treth y Cyngor.

Diystyrir oedolion sy'n perthyn i'r grwpiau canlynol:-

- myfyrwyr llawn amser, myfyrwyr nyrsio; prentisiaid
- cleifion sy'n byw yn yr ysbyty;
- pobl sy'n derbyn gofal mewn cartrefi gofal;
- pobl ag amhariadau gwybyddol sylweddol
- pobl sy'n aros mewn hosteli neu lochesi nos penodol;
- pobl ifanc 18 ac 19 oed sydd yn yr ysgol neu sydd newydd adael yr ysgol;
- Gofalwyr – unigolion sy'n rhoi gofal parhaus i berson arall. Er mwyn cael eich cydnabod fel gofalwr, rhaid bodloni'r amodau canlynol:
 - *Rydych chi'n byw yn yr un cartref â'r person rydych chi'n gofalu amdano.*
 - *Rydych chi'n rhoi o leiaf 35 awr o ofal bob wythnos.*
 - *Nid eich gŵr, gwraig, neu blentyn dan 18 oed yw'r person rydych chi'n gofalu amdano. Nid oes angen i chi fod yn cael Lwfans Gofalwr eich hun.*
- Mae'r person rydych chi'n gofalu amdano yn cael un o'r budd-daliadau canlynol:
 - *Lwfans Byw i'r Anabl (elfen gofal – cyfradd ganolog neu uchel)*
 - *Taliad Annibyniaeth Bersonol (elfen byw dyddiol – unrhyw gyfradd)*
 - *Lwfans Gweini (unrhyw gyfradd)*
 - *Taliad Annibyniaeth y Lluedd Arfog*
 - *Lwfans Gweini Cyson (cyfradd uchaf)*

Noder y gallai mwy nag un person sy'n byw yn yr un eiddo fodloni'r meini prawf i gael ei ystyried yn ofalwr. Os oes sawl gofalwr yn yr aelwyd, gall y gostyngiad Treth y Cyngor a ddyfernir fod naill ai'n 25% neu'n 50%, yn dibynnu ar anghenion y person sy'n cael gofal ac amgylchiadau cyffredinol yr aelwyd.

- aelodau o luoedd ar ymweliad a sefydliadau rhyngwladol penodol;
- aelodau o gymunedau crefyddol (mynachod a lleianod);
- pobl yn y carchar; Gall gostyngiad felly fod yn berthnasol os:-
- diystyrir pob oedolyn ond un sy'n byw yn yr annedd, neu
- diystyrir yr holl oedolion sy'n byw yn yr annedd;
- o 1af Ebrill 2019, pobl sy'n gadael gofal – Mae person sy'n gadael gofal yn 24 oed neu'n iau ac mae'n berson ifanc categori 3 fel y'i diffinnir gan adran 104 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Os yw eich bil yn dangos bod gostyngiad wedi'i ganiatáu, rhaid i chi ddweud wrth y Cyngor am unrhyw newid yn eich amgylchiadau sy'n effeithio ar eich hawl. Os nad ydych chi'n gwneud hynny, gallech fod yn agored i gosb.

Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2003 bwerau newydd yn ôl disgrisiwn i gynghorau mewn perthynas â gostyngiadau treth y cyngor. Mae'r Ddeddf yn rhoi mwy o ryddid i gynghorau benderfynu neu amrywio gostyngiadau ac esemptiadau o dreth y cyngor er mwyn ystyried problemau lleol fel llifogydd a thrychinebau naturiol eraill.

AIL GARTREFI

Mae rhai anheddau wedi'u cynnwys mewn un o dri dosbarth sydd wedi'u rhagnodi gan Lywodraeth Cymru:

Mae Dosbarth A Rhagnodedig yn cynnwys pob annedd yng Nghymru:-


- a) nad yw'n unig neu brif breswylfa unigolyn;
- b) sydd wedi'i dodrefnu, ac
- c) y mae ei meddiannu wedi'i wahardd gan y gyfraith am gyfnod parhaus o leiaf 28 diwrnod yn y flwyddyn berthnasol.

Mae Dosbarth B Rhagnodedig yn cynnwys pob annedd yng Nghymru:-

- a) nad yw'n unig neu brif breswylfa unigolyn;
- b) sydd wedi'i dodrefnu, ac
- c) nad yw ei meddiannu wedi'i wahardd gan y gyfraith am gyfnod parhaus o leiaf 28 diwrnod yn y flwyddyn berthnasol.

Mae Dosbarth C Rhagnodedig yn cynnwys pob annedd drethadwy yng Nghymru:

- a) sydd heb ei meddiannu;
- b) sydd heb ei dodrefnu'n sylweddol.



Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi penderfynu peidio â rhoi dim gostyngiad mewn perthynas ag anheddau sy'n dod o fewn dosbarthiadau penodedig A, B neu C.

PREMIYMAU

Caniaaodd Deddf Tai (Cymru) 2014 i Awdurdodau Bilio yng Nghymru godi Premiwm o hyd at 100% o 01/04/2015 mewn perthynas â'r ddwy adran a nodir isod (12A a 12B). Ni chododd Ceredigion Breimiwm rhwng 01/04/2015 a 31/03/2017. Ar 01/04/2017 cyflwynwyd premiwm o 25% ar gyfer y ddau ddosbarth.

Caniaaodd newidiadau i'r Ddeddfwriaeth gynyddu Treth y Cyngor i 400% (100% Treth y Cyngor a 300% premiwm) o 01/04/2023.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi penderfynu, mewn perthynas ag eiddo sy'n dod o dan adran 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, y bydd premiymau canlynol yn berthnasol o 01/04/2024 ymlaen:

12A: Anheddau gwag hirdymor

Y meini prawf yw;

At ddibenion yr adran hon, mae annedd yn "annedd wag hirdymor" ar unrhyw ddiwrnod os am gyfnod parhaus o leiaf 1 flwyddyn yn dod i ben gyda'r diwrnod hwnnw

- y mae wedi bod yn wag, ac
- mae wedi bod heb ddodrefn i raddau helaeth
 - 100% ar gyfer Eiddo sydd wedi bod yn Eiddo Gwag Hirdymor am hyd at a chan gynnwys 5 mlynedd
 - 150% ar gyfer Eiddo sydd wedi bod yn Eiddo Gwag Hirdymor ers dros 5 mlynedd a hyd at a chan gynnwys 10 mlynedd
 - 200% ar gyfer Eiddo sydd wedi bod yn Eiddo Gwag Hirdymor ers dros 10 mlynedd

12B: Anheddau a feddiannir o bryd i'w gilydd (a elwir weithiau'n ail gartrefi)

Y meini prawf yw;

- Nid oes preswlydd yn yr annedd, ac
- Mae'r annedd wedi'i dodrefnu'n sylweddol

Mae anheddau a feddiannir o bryd i'w gilydd (wedi'u dodrefnu ond dim

preswilydd) yn cynnwys pob ail gartref a phob eiddo hunanarlwyo sy'n methu â bodloni'r meini prawf i fynd i Ardrethi Annomestig

- 100% o 01.04.2024
- 150% o 01.04.2025

Mae'r eiddo canlynol wedi'u hesemptio o'r Premiwm;

- Am gyfnod o flwyddyn ar y mwyaf eiddo sydd ar y farchnad i'w gwerthu neu i'w gosod.
- Anecsau sy'n cael eu defnyddio fel rhan o'r brif breswylfa neu'r annedd.
- Anheddau a fyddai'n unig neu brif breswylfa person ond sy'n wag oherwydd bod y person yn byw mewn llety lluoedd arfog.
- Lleiniau wedi'u meddiannu gan garafanau ac angorfeydd wedi'u meddiannu gan gychoed.
- Anheddau lle mae'r feddiannaeth wedi'i chyfyngu gan amod cynllunio sy'n atal meddiannaeth am gyfnod parhaus o o leiaf 28 diwrnod mewn blwyddyn.
- Anheddau sy'n cael eu meddiannu o bryd i'w gilydd pan fo'r preswilydd arferol yn byw mewn llety sy'n gysylltiedig â swydd.

ATEBOLRWYDD I BERCHNOGION

Mae'r rhestr isod yn dangos yr achosion lle bydd y perchennog yn atebol:-

- A) Cartrefi gofal o fewn ystyr Deddf Safonau Gofal 2000 a rhai hosteli.
- B) Anheddau sy'n cael eu meddiannu gan aelodau o gymuned grefyddol.
- C) Tai amlfeddiannaeth.
- D) Anheddau sy'n cael eu meddiannu o bryd i'w gilydd gan gyflogwr ond y mae ei staff yn preswyllo yn yr annedd.
- E) Anheddau gweinidogion crefydd.
- F) Annedd a roddir i geisiwr lloches o dan adran 95 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999.

HAWLIAU APELIO

Gallwch apelio os ydych chi'n credu:-

- i) Bod yr hysbysiad galw am dalu wedi'i gyfeirio at y person anghywir;
- ii) Y dylai eich annedd fod wedi'i hesemptio rhag Treth y Cyngor;
- iii) Bod gennych hawl i ostyngiad ond nid oes gostyngiad wedi'i roi;
- iv) Bod gennych hawl i ostyngiad person anabl, ond nid oes gostyngiad wedi'i roi;
- v) Na ddylai eich annedd fod yn y dosbarthiadau rhagnodedig o anheddau.

Dylech ysgrifennu at y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Caffael a Chyllid yn gyntaf gan nodi'n glir y rhesymau dros eich apêl. Bydd y sefyllfa yn cael ei hadolygu a byddwch yn cael eich hysbysu o'r penderfyniad. Os ydych chi'n dal i deimlo'n anffodlon yn dilyn y penderfyniad hwn, bydd gennych chi hawl bellach i apelio i'r Tribiwnlys Prisio.

RHESTRAU PRISIO

Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n llunio ac yn cynnal rhestr Treth y Cyngor ar gyfer eiddo domestig.

Bydd pob annedd ddomestig yn ymddangos mewn Rhestr Brisio Treth y Cyngor a roddir mewn un o naw band prisio. Gellir gweld y rhestr yn - [Check your Council Tax band - GOV.UK](http://gov.uk)

HAWLIAU APELIO – MATERION PRISIO

Cewch apelio yn erbyn eich band yn yr amgylchiadau canlynol:-

- Ar ôl dymchwel neu addasu (e.e. o dŷ i fflatiau).
- Lle bu newidiadau ffisegol yn yr ardal sy'n effeithio ar werth.

Ac o fewn 6 mis i:-

- Newid i fand eich eiddo a wnaed gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.
- Newid band i eiddo tebyg i'ch un chi a wnaed gan y llys.
- Dod yn drethdalwr newydd y cyngor.

NID YW GWNEUD APÊL YN CANIATÂU I CHI ATAL TALU EICH TRETH Y CYNGOR.

Os bydd eich apêl yn llwyddiannus, bydd gennych hawl i gael ad-daliad o unrhyw Dreth y Cyngor a ordalwyd.

Gellir cael ffurflenni apêl a mwy o wybodaeth am weithdrefnau apelio gan Swyddog Prisio Cyngor Sir Ceredigion, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Durham, Wycliffe House, Green Lane, Durham, DH1 3UW.

Rhif llinell gymorth y ffôn yw 03000 505505 neu ewch i'r wefan yn [Contact VOA - GOV.UK](http://gov.uk).

Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad y Swyddog Rhestru, bydd gennych hawl bellach i apelio i Dribiwnlys Prisio.

BUDD-DAL TAI A GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR

Dim ond os ydych o oedran pensiwn, neu os ydych chi'n aros mewn lloches, hostel neu lety â chymorth/dros dro y gellir hawlio Budd-dal Tai. Os ydych o oedran gweithio, rhaid i chi hawlio Credyd Cynhwysol am gymorth gyda'ch rhent.

Efallai y byddwch yn gallu cael gostyngiad o dan Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor os oes angen help arnoch i dalu eich Treth y Cyngor. Rhaid i hyn ymwneud â'ch prif breswylfa, a rhaid i chi fod â naill ai atebolrwydd unigol neu atebolrwydd ar y cyd i dalu Treth y Cyngor i'r Cyngor.

Mae faint o Fudd-dal Tai a/neu Ostyngiad Treth y Cyngor a gewch yn dibynnu ar bedwar ffactor:-

- (i) Eich incwm,
- (ii) Eich cynilion
- (iii) Eich amgylchiadau personol, a
- (iv) Swm y rhent cymwys rydych chi'n ei dalu a/neu swm Treth y Cyngor a godir arnoch chi.

Os yw'ch bil yn dangos bod gostyngiad wedi'i gymhwyso, rhaid i chi roi gwybod i'r Cyngor am unrhyw newid yn eich amgylchiadau a allai effeithio ar eich hawl. Gall methu â gwneud hynny arwain at gosb.

NEWID AMGYLCHIADAU

TRETH Y CYNGOR, BUDD-DALIADAU TAI A CHYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR

NEWID CYFEIRIAD

Os byddwch chi'n symud tŷ, bydd angen i'r Cyngor addasu eich bil Treth y Cyngor. Rhowch wybod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Cyllid a Chaffael os byddwch yn newid eich cyfeiriad.

BUDD-DAL TAI A CHYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR

Os ydych chi'n cael Budd-dal Tai neu ostyngiad o dan Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor, **mae gennych ddyletswydd gyfreithiol i hysbysu'r Swyddfa Budd-daliadau ar unwaith** os oes unrhyw newid yn eich amgylchiadau a allai effeithio ar eich hawl.

Os na rowch wybod am newid mewn amgylchiadau, bydd gofyn i chi ad-dalu unrhyw Fudd-dal Tai a/neu Ostyngiad Treth y Cyngor sydd wedi'i ordalu.



Mae gofyn i chi, **YN ÔL Y GYFRAITH**, hysbysu'r Cyngor o fewn 21 diwrnod os bydd unrhyw newid yn eich amgylchiadau sy'n effeithio ar y canlynol:-

ANHEDDAU ESEMPT

Rhaid i chi hysbysu'r Cyngor os yw annedd yn peidio â bod yn esempt rhag Treth y Cyngor.

GOSTYNGIADAU

Rhaid i chi roi gwybod i'r Cyngor os nad ydych bellach yn gymwys i gael gostyngiad un person, neu os yw person a ddiystyrwyd yn peidio â chael ei ddiystyru at ddibenion gostyngiad, neu os yw annedd wag yn cael ei meddiannu.

GOSTYNGIAD PERSON ANABL

Rhaid i chi roi gwybod i'r Cyngor os ydych o'r farn nad ydych bellach yn gymwys i gael gostyngiad person anabl.





Gallwch ymweld a'n gwefan ar: www.ceredigion.gov.uk